CYNGOR TREF PORTHMADOG

18.30 – 19.00
Cyflwyniad gan Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeisdrefol Cyngor Gwynedd am gynlluniau arfaethedig ar gyfer y Parc, Porthmadog.(wedi ei ohirio ers 14.2.23)
Estynwyd croeso i Steffan Jones i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a mynegwyd cydymdeimlad tuag ato am ei brofedigaeth diweddar.Dechreuodd Steffan Jones ei gyflwyniad drwy ddiolch am y croeso ac i ddweud bod gwaith eisoes wedi dechrau ar uwchraddio cyflwr y Parc.
Rhestrwyd y manylion canlynol :-

Y Golff bach

- Nodwyd ei bod wedi bod yn fwriad ail-agor y Golff bach erbyn y Pasg ond fod angen tua 6-8 wythnos o waith yno eto cyn iddo fod yn barod i'w agor i'r cyhoedd.
- Mae angen trefnu i gael cyflenwad trydan ar gyfer y cwt er mwyn darparu gwasanaeth talu electronig.
- Gellir talu gyda cherdyn neu gyda arian parod.
- Bydd y Golff bach ar agor rhwng 10.00 a 18.00 bob dydd.
- Bydd angen cyflogi 2 berson ar gytundeb tymhorol i weithio yn y Golff bach ac i gynnal a chadw'r parc drwy godi sbwriel a gwagio biniau yn ogystal.

Y safle concrit
Bwriedir gosod byrddau picnic a meinciau yn y safle yma.
Ffens
Bwriedir trwsio'r ffens wrth y maes parcio a gwneud gwelliannau i'r giât a ddefnyddir gan swyddogion Cyngor Gwynedd i gael mynediad i'r safle.
Biniau
Bwriedir newid y rhai presennol a chael biniau mwy er mwyn gwella'r sefyllfa sbwriel.
Llain gwyrdd
Bwriedir torri'r gwair yn amlach er mwyn rheoli'r tyfiant.

Rhoddwyd cyfle wedyn i'r Cynghorwyr i holi Steffan Jones. Gofynwyd y cwestiynau canlynol :-
Fydd yna fwy o finiau ail-gylchu?
Bydd – ond ailgylchu caniau yn unig.
Oes modd codi'r gwaharddiad ar gŵn?
Ni chaniateir cŵn mewn unrhyw barc chwarae i blant.

Ychwanegodd Steffan Jones fod 5 Tïm Tacluso bellach yn gweithio o fewn Gwynedd a bod yr awdurdod yn ail-edrych ar y trefniadau glanhau drwy'r Sir er mwyn gwella safon glendid yn gyffredinol. Gobeithir gweld gwahaniaeth er gwell yn y misoedd sydd i ddod.

Diolchodd y Cadeirydd i Steffan Jones am ei gyflwyniad a nododd y bydd y Cyngor Tref yn cadw llygad ar y sefyllfa i weld os ydi'r cynlluniau uchod yn cael eu gwireddu. Bydd y Cyngor Tref yn siwr o gysylltu os na welir gwelliant a'r prawf mawr fydd yn ystod y tymor gwyliau yn y misoedd nesaf.

Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Mawrth 14 2023

Presennol :- Cynghorwyr :- John Gwynedd Roberts, Gwilym Jones, Carol Hayes, Michael Roberts. Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Connor Westwood, Alwyn Gruffydd, Sandra Bodden Jones, Aled Griffith

DRAFT

Y Cyhoedd :- Cyng June Jones
Marian Roberts (Clerc)
330.3.23 Ymddiheuriadau:- Cynghorwyr :- Dr Melfyn Edwards; Llinos Murphy
331.3.23 Adroddiad y Cadeirydd.
Croesawyd pawb i'r cyfarfod a dechreuodd y Cadeirydd drwy estyn ei gydymdeimlad ar ran y Cyngor Tref i deulu David Andrew Evans, gŵr ifanc lleol a fu farw yn ddiweddar yn 33 oed. Bydd yn golled enfawr i'w deulu ac i'w ffrindiau a diolchodd y Cadeirydd i staff Canolfan Byw'n Iach Glaslyn am eu hymateb sydyn a'u hymdrechion mewn sefyllfa anodd iawn.
Yn dilyn gwyliau hanner tymor prysur mae prysurdeb wedi cynyddu yn raddol ac roedd yn falch fod Steffan Jones wedi bod yma heno i drafod cynlluniau ar gyfer yr haf.

332.3.23 Cadarnhau cywirdeb cofnodion Cyfarfod Rheolaidd Pwyllgor Llawn Chwefror 14 2023
Cywiriadau :-
298.2.23 Cyng Carol Hayes yn datgan diddordeb ynglyn â chais ariannol Yr Wylan nid Y Ganolfan.
328.2.23 Nododd y Clerc nad yw pŵer A19 Llesiant yn bodoli ers Mai 2022. Cyfanswm cyfraniadau A137 felly ydi £9,750.00.
328.2.23 Nid Clwb ond Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb.

Yn dilyn y cywiriadau yma cafwyd y Cofnodion yn gywir yn ôl cynnig Cyng Sandra Bodden Jones, Cyng Michael Roberts yn eilio.

334.3.23 Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.
Dim datganiad o ddiddordeb.

MATERION I'W DWYN GERBRON :-

335.3.23 Cyng Llywelyn Rhys :- cynnig ysgrifennu i'r adran berthnasol o Gyngor Gwynedd i gwyno am y cerbyd sydd wedi parcio ar ochr y ffordd wrth y fynedfa i fynwent Penamser.
Nodwyd fod swyddogion Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o fodolaeth y fan a bod y ffaith fod y fan yn cael ei symud yn achlysurol yn rhwystro'r awdurdodau rhag cymryd camau pellach. Cytunwyd fod y fan yn amharu ar fynediad i'r fynwent ac yn tynnu sylw modurwyr ar ran beryglus o'r ffordd.
Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig Cyng Llywelyn Rhys,Cyng Gwilym Jones yn eilio.

336.3.23 Ethol cynrychiolydd ar Bwyllgor Arfon Dwyfor Un Llais Cymru yn dilyn ymddiswyddiad Cyng Carol Hayes.
Cytunodd Cyng Gwilym Jones i ymgymryd â'r rôl fel cynrychiolydd y Cyngor Tref ar Bwyllgor Arfon Dwyfor Un Llais Cymru.

337.3.23 Cyng Sandra Bodden Jones :- cynnig bod y Cyngor Tref yn sefydlu tudalen Facebook i rannu gwybodaeth i'r cyhoedd.
Cytunwyd y dylid defnyddio tudalen Facebook er mwyn i'r Clerc r**annu gwybodaeth yn unig** ac nid i roi sylwadau.
Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig Sandra Bodden Jones, Cyng Michael Roberts yn eilio.

338.3.23 Cyng Sandra Bodden Jones :- cynnig ysgrifennu i Gyngor Gwynedd i wneud cais am fin sbwriel wrth hen dŷ'r Heddlu Tremadog.
Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig Sandra Bodden Jones, Cyng Aled Griffith yn eilio.

339.3.23 Cyng Sandra Bodden Jones :- cynnig ysgrifennu i Gyngor Gwynedd i wneud cais i osod mainc newydd yn y Nyrseri, Tremadog.
Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig Sandra Bodden Jones, Cyng Aled Griffith yn eilio.

DRAFT

340.3.23 Penderfynu ar y tendr peintio offer chwarae Cae Bodawen (gohebiaeth 19)
Penderfynwyd :- derbyn tendr Mark Williams yn ôl cynnig Cyng Michael Roberts, Cyng Aled Griffith yn eilio.

341.3.23 Penderfynu ar y tendr torri llwybrau 2023-24 (gohebiaeth 20)
Penderfynwyd :- derbyn tendr Cyngor Gwynedd yn ôl cynnig Cyng Connor Westwood, Cyng Aled Griffith yn eilio.

342.3.23 Penderfynu ar aelodau ar gyfer Is-Bwyllgor Nadolig
Penderfynwyd :- gadael y mater ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf oherwydd absenoldeb Cyng Llinos Murphy.

343.3.23 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. *Dyddiad cau Rhaglen Ebrill 11 2023 = Ebrill 1 2023 , (Rheolau Sefydlog 8.1 " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)*

Cyng Gwilym Jones – cynnig holi'r Adran Cynllunio os rhoddwyd caniatâd i osod y goleuadau coch llachar ar y siop barbwr newydd ac os cafwyd caniatâd cynllunio 'newid defnydd' ar y safle.
Cyng Michael Roberts – cynnig holi'r Adran Cynllunio os rhoddwyd caniatâd i osod arwyddion uniaith Saesneg o flaen Beach Rock Café, Morfa Bychan.
Cyng Michael Roberts – cynnig cysylltu ag Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i ddod i gasglu'r 'cones' y mae pobl yn eu gosod o flaen eu tai i atal eraill rhag parcio yno.
Cyng Llywelyn Rhys – cynnig gweithredu i wella cyflwr mainc goffa Glenda Burke.
Cyng Alwyn Gruffydd – cynnig cysylltu ag Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i atal pobl rhag parcio ar draws y palmant wrth y fynedfa i lwybr Cob Crwn o ochr Melin yr Wyddfa gan na ellir cael mynediad yno gyda chadair olwyn.
Cyng Michael Roberts – cynnig cysylltu â Cyngor Gwynedd i ofyn am fwy o finiau rhwng Borth y Gest a Phorthmadog – yn enwedig ardal y Garth.

344.3.23 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm**).**
Cyng Carol Hayes – cynnig ysgrifennu at Chwarae Teg i fynegi siom na chafodd Mair Eifion ei ystyried yn deilwng ar gyfer Plac Porffor eleni ac i fynegi siom na chafwyd unrhyw ymdrech ganddynt yn dilyn y cais i gysylltu â'r Cyngor Tref i adrodd hyn.
Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig Cyng carol Hayes, Cyng Michael Roberts yn eilio.
Cyng Aled Griffith – cynnig ail yrru pob llythyr a yrrwyd yn 2022 na chafwyd ymateb iddo.
Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Sandra Bodden Jones yn eilio.

GOHEBIAETH :

345.3.23.RACHEL CARTER – UN LLAIS CYMRU.Adroddiadau Adran 6 Deddf yr Amgylchedd
Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a'r Clerc i lenwi'r adroddiad.

346.3.23.RACHEL HEAL.Beic i Hafod Lon
Gan na chaniateir i'r Cyngor Tref roi cyfraniad i unigolion cytunodd y Cadeirydd i gysylltu â Rachel Heal er mwyn trefnu rhodd o arian Lwfans y Cadeirydd.

347.3.23.MEGAN ELIN.Fy nghoeden, ein coedwig
Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

348.3.23.UN LLAIS CYMRU.Arolwg anghenion hyfforddiant
Cytunwyd fod y cyrsiau a ddarparwyd gan Un Llais Cymru ar gyfer yr aelodau newydd a'r Cadeirydd wedi bod o fudd sylweddol iddynt.

DRAFT

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a'r Clerc a'r Cadeirydd i drefnu amser i lenwi'r holiadur ar y cyd.

349.3.23.GWENLLIAN CARR.Ymateb i 303.2.23 addurno ar gyfer yr Eisteddfod
Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth
350.3.23.UN LLAIS CYMRU.Aelodaeth 2023-24
Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac adnewyddu'r aelodaeth ar gyfer 2023-2024 yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

351.3.23.UN LLAIS CYMRU.
1. **Nodyn Cyngor Technegol TAN**
2. **Dogfen Ymgynghoriad (59tud electronig yn unig)**
3. **Sut i ymateb i'r Ymgynghoriad(10tud electronig yn unig)**

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a'r Cynghorwyr i ymateb yn unigol.

352.3.23.STEFFAN PRYS ROBERTS.Cronfa Gefnogaeth Gymunedol y DU
Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a rhannu'r wybodaeth gyda swyddogion Y Ganolfan a Chlwb Chwaraeon Madog.

353.3.23.DR GWYNNE WHELDON EVANS.Ymateb i 295.2.23 Clwb y Garreg Wen
Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

354.3.23.CATRIN ROBERTS CFFI.Ymateb i 304.2.23 addurno ar gyfer yr Eisteddfod
Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a'r Clerc i ail gysylltu i holi ymhellach – hefyd i ail gysylltu efo Ysgol Eifion Wyn ac Ysgol y Gorlan.

355.3.23.ERYL WILLIAMS & MEDI E DAVIES ADRAN CYNLLUNIO C.G.
Ymateb i 301.2.23 Grisiau Mawr
Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a nodi bodlonrwydd fod y broses Cais Cynllunio wedi cael ei ddilyn er iddo ddigwydd pan nad oedd cyfarfodydd o'r Cyngor Tref oherwydd y Cyfnod Clo cyntaf yn 2020.

356.3.23.FFION GWYN.Ymateb i 293.2.23 comisiwn newydd
Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a'r Clerc i gysylltu er mwyn trefnu cyfarfod.

357.3.23.NIA JONES YSGOL BORTH Y GEST.Ymateb i 304.2.23 addurno ar gyfer yr Eisteddfod
Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

358.3.23.STEFFAN PRYS ROBERTS C.G..Ymateb i 314.2.23 Croeso Cynnes
Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

359.3.23.UN LLAIS CYMRU
1. **.Adroddiad Blynyddol ar gydnabyddiaeth ariannol**
2. **Copi o'r Adroddiad (20 tudalen electronig yn unig)**

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

360.3.23.ROD KING.Diolch am 20
Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

361.3.23.NATIONAL GRID.Cysylltiad Pentir – Trawsfynydd
Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

362.3.23 HEFIN THOMAS;MARK WILLIAMS;DAFYDD WYN HUGHES.

DRAFT

Amcanbris i beintio offer chwarae Cae Bodawen
Trafodwyd eisoes yng nghofnod 340.3.23.

363.3.23.CYNGOR GWYNEDD;GWALCH;GARRY SHERIDAN.
Amcanbris torri llwybrau 2023-24
Trafodwyd eisoes yng nghofnod 341.3.23.

364.3.23.SARA HUGHES – HEDDLU GOGLEDD CYMRU.Gwahoddiad i gyfarfod
Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac ymateb i ddweud y bydd y Clerc a'r Cyng Sandra Bodden Jones yn mynychu'r cyfarfod wedi iddynt gadarnhau'r lleoliad.

365.3.23 MATERION ARIANNOL :

Derbyniadau :

HSBC	Llog Banc Ionawr / Chwefror 2023	£ 30.34
CYNGOR GWYNEDD	Grant Cronfa Cyfalaf Lleoedd lleol ar gyfer natur (Coed ffrwythau a blodau Bodawen)	£ 6,600.00

Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Aled Griffith yn eilio :-

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Chwefror 2023	£ 51.71
2	Marian Roberts	Cyflog Clerc Chwefror 2023	£ 922.97
3	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth Incwm cyflog Clerc Chwefror 2023	£ 230.74
4	Marian Roberts	16 x stamp ail ddosbarth	£ 10.88
5	Marian Roberts	Padlock newydd i giât Bodawen	£ 22.84
6	Marian Roberts	Hoelion i osod mulch mats coed ffrwythau Bodawen	£ 17.40
7	Marian Roberts	Inc du	£ 20.74
8	Y Ganolfan	Cyfarfodydd mis Ionawr a Chwefror	£ 110.00
9	Y Ganolfan	Clwb Ieuenctid hyd at 28.3.23	£ 537.50
10	Un Llais Cymru	Hyfforddiant Cynghorwyr Connor Westwood. John Gwynedd Roberts, Aled Griffith	£ 210.00
11	Y Ffynnon	Hysbyseb Tendr torri gwair	£ 14.00
12	Arena Group	LLungopïo	£ 25.62
13	Xerox Finance Ltd	Llogi llungopïwr 1.4.23 hyd at 30.6.23	£ 164.40
14	Un Llais Cymru	Tâl Aelodaeth 2023-2024	£ 906.00
15	Cyng Aled Griffith	Lwfans Cynghorydd 2022-2023	£ 120.00
16	Cyng Alwyn Gruffydd	Lwfans Cynghorydd 2022-2023	£ 120.00
17	Cyng Gwilym Jones	Lwfans Cynghorydd 2022-2023	£ 120.00
18	Cyng Sandra Bodden Jones	Lwfans Cynghorydd 2022-2023	£ 90.00
19	Cyng Dr Melfyn Edwards	Lwfans Cynghorydd 2022-2023	£ 90.00
20	Cyng Llinos Murphy	Lwfans Cynghorydd 2022-2023	£ 100.00
21	Cyng John Gwynedd Roberts	Lwfans Cynghorydd 2022-2023	£ 20.00

DRAFT

22	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth Incwm Lwfansau Cynghorydd	£ 165.00
*23	Cyngor Gwynedd	Gosod bollard ar giât Bodawen Awst 2022	£ 321.60
*24	Cyngor Gwynedd	Gosod a thynnu coed Nadolig	£ 1,992.00
*25	Cyngor Gwynedd	Torri gwair a llwybrau 2022-23	£ 8,280.05

***** wedi dod i law ar 9.3.23

(Mae copi o bob siec ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

366.3.23. CEISIADAU CYNLLUNIO

(a) Rhif Cais .: C23/0100/44/LL (wedi ebostio i'ch sylw ar 22.2.23)
Lleoliad : Taliesin Lodge Park, Morfa Bychan, LL49 9YL
Bwriad : Codi paneli solar 20Kw ar fframwaith daear a gwaith cysylltiedig.

Penderfynwyd :- dim gwrthwynebiad yn ôl cynnig Cyng Connor Westwood, Cyng Aled Griffith yn eilio.

(b) Rhif Cais / Application No.: C23/0161/44/LL (wedi ebostio i'ch sylw ar 27.2.23)
Lleoliad: Garreg Goch Caravan Park Garreg Goch, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9YD
Bwriad : Addasu gosodiad ar gyfer:
1. Gosod 3 pod gwyliau a 5 carafan deithiol yn lle 10 o garafanau deithiol tymhorol a ganiatawyd o dan ganiatad Cynllunio C03D/0579/44/LL
2. Storio hyd at 3 jet ski o fewn y compownd cynnal a chadw / storio presennol
Penderfynwyd :- gwrthwynebu'r cais am y rhesymau canlynol :-

- Byddai'n newid defnydd y lleoliad
- Byddai'n gosod cynsail i osod mwy o'r "Pods" gwyliau
- Byddai'n or-ddatblygiad
- Byddai'r "Pods" yn adeiladau parhaol a sefydlog – nid fel carafanau y gellir eu symud

yn ôl cynnig Cyng Connor Westwood, Cyng Aled Griffith yn eilio.

367.3.23 Gan fod Adroddiad ar gyflwr goleuadau Nadolig gan R.J.Electrics wedi cyrraedd y Clerc yn gynharach heddiw ac wedi ei basio ymlaen i sylw'r Cynghorwyr, cytunwyd i'w drafod fel mater brys.
Penderfynwyd :- gweithredu ar argymhelliad yr Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo ar 31.1.23 ac a gymeradwywyd yng nghyfarfod Pwyllgor Llawn 14.2.23 (gweler 297.2.23) i fynd ymlaen i brynu 7 golau Nadolig newydd yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Sandra Bodden Jones yn eilio.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.10

Marian Roberts
(Clerc)
16.3.23

DRAFT

DRAFT